Canllaw Drwyddedu

AR GYFER PLANT IFAINC SY'N GWEITHIO YM MYD ADLONIANT A PHERFFORMIO

Canllaw i rieni a chwmnïau cynhyrchu

GWASANAETH MYNYCHU'R YSGOL A LLES

STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

CYFLWYNIAD

Mae llawer o blant a phobl ifainc yn mwynhau perfformio, boed hynny mewn dramâu, ffilmiau, hysbysebion, ar y teledu neu fodelu. Mae rhieni'n mwynhau eu cefnogi nhw, eu gweld yn llwyddo a mwynhau'r profiadau maen nhw'n eu cael. Er hynny, mae deddfau'n bodoli sy'n diogelu plant a phobl ifainc rhag cael eu hecsploetio a/neu ddioddef niwed ac sy'n gofalu am eu hiechyd a'u diogelwch. (Deddf Plant a Phobl Ifainc 1963 a Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 2015.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi trwydded perfformio pan ei fod e'n fodlon

- Na fydd addysg/iechyd y plentyn yn dioddef
- Bydd lleoliad y perfformiad / yr ymarfer yn foddhaol
- Bydd amodau'r drwydded yn cael eu parchu
- Bod gan y plentyn/person ifanc warchodwr addas

Mae hawl gan yr Awdurdod Lleol i beidio â rhoi trwydded os nad yw'r gofynion uchod yn cael eu bodloni neu os oes pryderon am les eich plentyn. Yn Rhondda Cynon Taf, y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles sydd â'r cyfrifoldeb am drwyddedu plant.

Rhaid cymhwyso'r gyfraith yma ar gyfer pob plentyn hyd at gyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol. Daw oedran ysgol gorfodol i ben ddydd Gwener olaf mis Mehefin yn ystod y flwyddyn ysgol mae'r plentyn yn cael ei ben-blwydd yn 16 oed.

AR GYFER PA FATH O BERFFORMIADAU MAE ANGEN TRWYDDED?

Pob perfformiad sy'n

- Codi tâl
- Cael ei gynnal mewn eiddo trwyddedig neu mewn clwb cofrestredig
- Cael ei ddarlledu neu'i recordio er mwyn y cyhoedd
- Cael ei gynnal yn ystod tymor yr ysgol

Rhai enghreifftiau:- tra bod plant a phobl ifainc o ysgolion dawns yn gorfod cael eu trwyddedu i berfformio mewn ysgolion, does dim angen trwydded ar berfformiadau ysgol. Rhaid i bob plentyn a phobl ifainc sy'n gweithio fel modelau neu sy'n cael clyweliad ar gyfer sioeau teledu fod wedi eu trwyddedu.

CAIS AM DRWYDDED

Wrth wneud cais am drwydded, mae'n rhaid cynnwys:

- Dau lun maint pasbort o'r plentyn;
- Tystiolaeth o ddyddiad geni'r plentyn (copi o dystysgrif geni neu dudalen gefn pasbort cyfredol);
- Ffurflen datganiad iechyd;
- Llythyr gan bennaeth y plentyn sydd yn cytuno i absenoldeb y plentyn o'r ysgol ac/neu yn cadarnhau fydd y perfformiadau arfaethedig ddim yn cael effaith gwael ar addysg y plentyn;
- Polisi diogelu'r cwmni cynhyrchu;
- Asesiad risg y cwmni cynhyrchu;

TREFNIADAU TEITHIO

Bydd deiliad y drwydded (asiant/asiantaeth/cwmni cynhyrchu) yn gwneud yn siŵr bod trefniadau teithio priodol i blentyn/person ifanc gael cyrraedd gartref, neu ryw le arall sydd wedi cael ei gytuno arno, ar ôl perfformiad neu sesiwn ymarfer olaf y dydd ac mae disgwyl i oedran y plant gael ei ystyried wrth wneud y trefniadau yma.

HEBRYNGWYR

Yn ôl Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 2015 mae'n rhaid i'r plant hynny sy'n gweithio ym myd adloniant gael eu goruchwylio gan hebryngwyr (warchodwyr) (fe all rhieni warchod eu plant, ac yn gyffredinol, y nhw sy'n gwneud hynny). Fe all yr Awdurdod Lleol fod o'r farn ei fod yn addas i'r plant gael gwersi yn ystod yr adeg maen nhw'n colli ysgol. Deiliad y drwydded sy'n cyflogi'r gwarchodwr ac sy'n gyfrifol am roi gwybod iddyn nhw am yr holl drefniadau sydd wedi eu gwneud ar gyfer y plant a'r bobl ifainc yn eu gofal.

Perfformiadau sy'n cael eu darlledu neu'u recordio

	Oedran		
	Geni i < 5 oed	5 i < 9 oed	9 i 16 oed
Uchafswm yr oriau mewn lleoliad perfformio neu ymarfer	5 awr	8 awr	9.5 awr
Amseroedd cynharaf / hwyraf mewn lleoliad perfformio neu ymarfer	7 am – 10 pm	7am – 11pm	7am – 11pm
Uchafswm yr amser o ran perfformio neu ymarfer heb egwyl	30 munud	2.5 awr	2.5 awr
Uchafswm yr oriau o ran perfformio neu ymarfer	2 awr	3 awr	5 awr

PERFFORMIADAU TRAMOR

Does dim hawl gan blant/pobl ifainc i deithio tramor (y tu allan i Brydain Fawr a Gogledd Iwerddon) i berfformio heb gael trwydded i'r pwrpas gan Ynad Heddwch yr awdurdod lleol. Bydd Prif Swyddog Heddlu'r ardal yn cael gwybod hefyd.

HYD Y CYFNOD PERFFORMIO

Does dim hawl gan blentyn i gymryd rhan mewn perfformiad (gan gynnwys sesiynau ymarfer) am fwy na 6 diwrnod yn olynol. Mae angen rhoi amser i'r plentyn orffwys a threulio amser i ffwrdd o'r perfformiad. Gall plentyn weithio dan yr amodau hyn am gyfnod nid yn hirach nag 8 wythnos. Os bydd plentyn yn gweithio am uchafswm yr amser dros 8 wythnos, yna mae rhaid iddo gael egwyl o 14 diwrnod o leiaf cyn y perfformiad nesaf. Fydd y rheol yma ddim yn berthnasol os ydy trwydded y plentyn yn nodi llai na 60 diwrnod o berfformio. Serch hynny, mae hawl gan yr awdurdod i gyfyngu hyd y cyfnod perfformio ar gyfer unrhyw blentyn drwy amodau'r drwydded os oes amheuaeth ynghylch effaith y perfformio ar ei addysg neu les.

BETH YW'R CAM NESAF?

Unwaith caiff trwydded ei chymeradwyo caiff ei hanfon at yr un wnaeth y cais (cwmni cynhyrchu/asiant/asiantaeth) a chopi i'w anfon at rieni. Os yw eich plentyn yn perfformio y tu allan i ffiniau Rhondda Cynon Taf, bydd copi o'r drwydded hefyd yn cael ei anfon i'r Awdurdod Addysg priodol.

Gall yr Awdurdod Addysg archwilio'r lleoedd y bydd plant a phobl ifainc yn perfformio er mwyn gwneud yn siŵr eu bod nhw'n addas a bod y plant yn cael gofal priodol.

RHAGOR O WYBODAETH

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â phlant sy'n gweithio ym myd adloniant, cysylltwch â:

Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,
Tŷ Trevithick, Abercynon,
Aberpennar, CF45 4UQ

Ffôn: 01443 744298 • **Ffacs:** 01443 744230

Ebost: aws@rctcbc.gov.uk